Cofnodion Pwyllgor Cynllunio a Materion Cyffredinol Cyngor Tref Llandeilo, a gynhaliwyd ar Nos Fercher y 6ed o Orffennaf 2011, yn Neuadd y Sir, Llandeilo am 7.00yh.

Presennol: Y Cyng. Richard Wallace, y Cyng. Dawn Wallace, y Cyng. Colin Jenkins, y Cyng. Fran Murphy, y Cyng. Christopher Parish
Roger Phillips (Clerc y Dref)
Des Davies (Swyddog Technegol)

Ymddiheuriadau Y Maer y Cyng. Julia Jones, y Cyng. Edward Thomas, y Cyng. Charlotte Leadbeater, y Cyng. David Williams, y Cyng. Roy Davies,

Cof 104 / Gorff / 11 Ceisiadau cynllunio i'w penderfynu

E/24899 Lleoli 1 uned symudol ddwbl o lety dros dro er dibenion addysgu. Bydd y gwaith yn cynnwys eitemau megis draenio, llwybrau allanol, grisiau, rampiau ayb. Yn ogystal, bydd rhan o'r tŷ mas â gorchudd presennol yn cael ei ddymchwel o ganlyniad i leoli'r uned symudol. Ysgol Teilo Sant.
Sylw: Dim gwrthwynebiad

E/24895 Newid defnydd a wneir o uned manwerthu i gaffi ar llawr 1af, 101 Stryd Rhosmaen.
Sylw: Dim gwrthwynebiad

E/24927 Altradau mewnol i gaffi sydd eisoes yn bod yn La Cafe Braz, 3 Heol y Brenin.
Sylw: Dim gwrthwynebiad, ar wahân i'r gofyn ei fod yn cydymffurfio â'r rheoliadau tân, gan nad oes yna allanfa o'r islawr.

E/25041 Cynlluniau i godi siop fwyd dosbarth A1, iard wasanaethu, maes parcio i gwsmeriaid, ffordd fynediad newydd, gorsaf betrol a datblygiad cysylltiedig ar dir i'r gorllewin o ystâd ddiwydiannol Beechwood ar gyfer Sainsbury's Supermarkets Ltd.
Sylw: Yn unol â Rheolau Sefydlog y Cyngor, gohiriwyd y drafodaeth nes cyfarfod nesaf y Cyngor Llawn.

E/25043 Adfer ac ailwampio llety preswyl llawr uchaf gwag, dymchwel rhan a helaethu llety preswyl sy'n estyniad gwag yn y cefn a newid y defnydd a wneir o dŷ mas i ddefnydd preswyl yn Principality, 40 Stryd Rhosmaen.
Sylw: Dim gwrthwynebiad cyhyd â'i fod yn cydymffurfio ag ardal gadwraeth.

Cof 105 / Gorff /11 Penderfyniadau ynghylch Ceisiadau Cynllunio

E/24685 Codi annedd sengl newydd yn 5 Teras Brynawel.
RHODDWYD

E/24639 Annedd sengl a garej (ailgyflwyno cais E/18474) ar dir cyfagos i 28 Heol Caerfyrddin.
RHODDWYD

Cof 106 /Gorff /11 Doedd dim Ceisiadau Cynllunio a dynnwyd yn ôl

Cof 107 / Gorff / 11 Doedd dim Apeliadau Cynllunio

Cof 108 / Gorff /11 Mater yn ymwneud â Thrafnidiaeth a Phriffyrdd
Adroddodd y Swyddog Technegol bod llawer o'r ceudyllau o gwmpas y Dref wedi cael eu llenwi.

Cof 109 / Gorff / 11 Doedd dim materion yn ymwneud â Goleuadau.

Cof 110 / Gorff / 11 Adroddiad y Swyddog Technegol
Dywedodd Mr Davies y byddai'r gwaith o ddiweddaru'r goleuadau yn Neuadd y Sir yn cychwyn yn fuan.
Roedd y gwaith o dynnu iorwg a mieri oddi ar y wal tu ôl i Neuadd y Sir wedi cael ei gwblhau.

Cof 111 / Gorff /11 Gohebiaeth

1. Sainsbury's ynglŷn â Chais Cynllunio. Gofynnwyd i'r Clerc i ofyn am yr adroddiadau cysylltiedig, er mwyn rhoi ystyriaeth iddynt yng nghyfarfod y Cyngor Llawn.
2. Elinos Walters ynglŷn â Phrosiect y Rhufeiniaid yn Sir Gaerfyrddin. Byddai'r Clerc yn anfon llythyr o gefnogaeth.
3. David Rice ynglŷn â sbwriel yn y Dref. Byddai'r Clerc yn ysgrifennu at y Gwasanaethau Stryd. Roedd y Clerc eisoes wedi cysylltu â'r Cynghorydd Sir.
4. Gerwyn Thomas ynglŷn â chyflwyno Banner Werdd arall i Barc Penlan. Byddai llythyr o longyfarchiadau'n cael ei anfon.
5. Jane Davies, Clerc Manordeilo a Salem, ynglŷn â chyfarfod i drafod cau'r ganolfan ddydd yn Llandeilo. Byddai'r cyfarfod hwn yn cael ei gynnal ar nos Fawrth y 12fed o Orffennaf 2011.
6. Gerwyn Thomas, ynglŷn â grant tirlenwi arfaethedig. Nodwyd.
7. Dolen Gymunedol Geltaidd ynglŷn â'r Rhwydwaith Cefnogi Neuaddau Cymuned. Nodwyd.
8. Swyddog Gwyddonol CSG ynglŷn ag adroddiadau Ansawdd Aer. Cytunwyd i argymell wrth y Cyngor Llawn bod cyfarfod Cyhoeddus yn cael ei drefnu.

Cof 112 / Gorff / 11 Eitemau arall o fusnes yr oedd y Cadeirydd, oherwydd amgylchiadau arbennig, yn dymuno eu hystyried fel mater o frys, yn unol ag adran 100B(4)(B) o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972

1. Mynegwyd pryder am y newidiadau sy'n cael eu gwneud i archfarchnad CK. Cytunwyd y byddai'r Clerc yn cysylltu â Swyddog Cynllunio CSG i ofyn am fanylion unrhyw gais cynllunio.
2. Adroddodd y Clerc am fanylion y trigolion sy'n berchen ar ardaloedd o dir sy'n gordyfu ar Stryd y Bont. Gofynnwyd iddo i ysgrifennu atynt i'w hysbysu am bryderon y Cyngor.

Daeth y cyfarfod i ben am 8.05yh.